CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Tachwedd 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.
Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno ymuno â'r cyfarfod gysylltu â'r Clerc i gael y manylion mewngofnodi
Members of the public wishing to join the meeting should contact the Clerk for the log-in details

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, A Wyn, P Ellis, C McGregor, W Williams, R Hughes, S Jones, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng E Williams, D ap Rhobert, H Davies, N Dafydd (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng C McGregor eitem 5.2; Cyng R Hughes eitem 5.2
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18.10.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng P Ellis yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Mynwent Llanddyfnan** (tap) – Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda phlymwyr eraill. Hefyd, cynigiodd y Cyng R Hughes gael golwg ar y tap.
4.2	**Llwybrau cyhoeddus** - Mae'r Cynghorydd E Williams yn delio â'r mater hwn. Cytunwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf
4.3	**Pencampwr Iaith** - Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyng E Williams a yw'n fodlon cynrychioli'r cyngor.
4.4	**Community Beat Manager** - Nid yw'r CBM yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, bydd y Clerc yn ei wahodd i'r cyfarfod nesaf
	Llofnod…….Cadeirydd 17.01.23

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	HHP/2022/309 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a codi elodau yn Carrog Fain, Tregaian – Teimlai'r elodau fod y datblygiad yn rhy fawr
5.2	VAR/2022/68 Cais o dan Adran 73 I ddiwygio amod (02) (Cynlluniau a Gyflwynwyd), (03) (Tirlunio), (10) (Mynediad), a (19) (Llwybr Troed) er mwyn newid dyluniad y math o dy a cynllun safle diwygiedig ar gyfer Plot 6 ynghyd a gwybodaeth I ollwng amodau (07) (Gwaith archeolegol), (09) (Rhywogaethau mewnwthiol), (16) (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu), (18) (Dŵr wyneb), o caniatâd cynllunio cyfeirnod VAR/2020/13 (Codi 6 annedd) ar tir ger Bryn Bochan, Talwrn. Cadeiriwyd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon gan y Cyng A Williams. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiadau ond roeddent eisiau cadarnhad y bydd y palmant o fewn tiroedd Bryn Brochan.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytunwyd I dalu £137.95 – costau y Clerc
7.2	Adolygu Swydd/cyflog y Clerc – Cytunwyd I godi cyflog y Clerc I'r lefel genedlaethol (gan ddechrau ar bwynt graddfa 25) 9 awr yr wythnos o 01.04.23. Mae hyn yn unol â Chynghorau Cymuned eraill.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cyflwr ffyrdd – Mae'r aelodau yn bryderus bod llawer o dyllau yn y ffyrdd – lon Ceint, Tyn Llidiart I Ffordd Benllech a Thregaian. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir.
8.2	Gor-yrru Talwrn – Mae'r cyngor yn deall bod arwyddion newydd yn cael eu gosod yn Nhalwrn
8.3	Cynllun Hyfforddiant – Derbyniodd yr aelodau y cynllun hyfforddi a baratowyd gan y Clerc.
	Llofnod…….Cadeirydd 17.01.23

8.4	Dosbarthwyr bagiau cwn - Dywedodd y Clerc ei fod wedi rhoi bagiau i Mr William Vaughan ar gyfer y peiriant dosbarthu yng nghanol y pentref a'r Cyng E Williams gyda bagiau ar gyfer y peiriant dosbarthu ger Bodafon.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 17.01.23